Send my friend to school 2009

Astudiaeth Achos: Eduardo

Eduardo, o Angola
Mae Eduardo, o Angola, yn cael ei wersi yn yr awyr agored. Ond mae'n lwcus – am y rhan fwyaf o'i oes allai e ddim mynd i'r ysgol o gwbl oherwydd y rhyfel yn ei wlad.

Mae fy ysgol yn cyfarfod yn yr awyr agored o dan goeden. Rydyn ni'n astudio mathemateg a Phortiwgaleg, iaith genedlaethol Angola,' meddai.

Eduardo, o Angola

''Mae'r haul yn gwneud i'm llygaid frifo a phan fydd hi'n bwrw glaw, rydyn ni naill ai'n rhedeg adre' neu'n aros o dan y canghennau nes iddi stopio. Dydy hi ddim yn dda pan fyddwch chi a'ch holl lyfrau'n mynd yn wlyb. Byddai'n well gen i astudio dan do.'

'Yn ffodus, mae'r holl bobl yn fy mhentre i'n gweithio gyda'i gilydd i adeiladu ysgol, achos mae gwir angen to a chysgod arnon ni. Rwy'n falch o fod yn rhan o'r gwaith o adeiladu fy ysgol.'

'Cyn i ni symud, roeddwn i'n byw yn y goedwig gyda fy nheulu. Roedden ni bob amser yn rhedeg ac yn ceisio dianc rhag y rhyfel. Doedd gyda ni ddim bwyd, lloches, blancedi, pebyll - dim. Roedden ni'n byw fel hynny am flwyddyn neu ddwy, ac roedd milwyr yn arfer dod ar ein hôl. Un tro, aethom i guddio yn yr afon i ddianc.'

'Doeddwn i ddim yn hoffi byw fel hynny achos roeddwn i'n ofni mod i'n mynd i farw ac roeddwn i bob amser eisiau bwyd. Roedd rhaid i ni chwilio am sborion, a phryd bynnag fydden ni'n clywed bod unrhyw gasafa (tebyg i daten felys) gerllaw, bydden ni'n dechrau cerdded tuag yno a chloddio am y gwreiddiau i'w bwyta. Roeddwn i mor hapus pan orffennodd y rhyfel oherwydd roedden ni'n gallu gadael y goedwig.'

'Y tro cyntaf i fi ddod i'r ysgol oedd pan symudon ni i'r pentre yma ddwy flynedd yn ôl. Rwy'n gobeithio parhau â'm hastudiaethau a mynd i'r ysgol oedolion wedyn ym Mavinga, tre gerllaw. Pan fydda i wedi gorffen yr ysgol, hoffwn fod yn athro neu'n yrrwr. Fe hoffwn i allu mynd â fy rhieni nôl i'w pentre genedigol.'

© Cymorth Cristnogol
Photo © Rachel Lewis/Christian Aid
Text © Christian Aid

75 million children are missing out on an education